
OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2022 Rhif 250 (Cy. 76)

TAI, CYMRU

**Rheoliadau Rhentu Cartrefi
(Cynlluniau Blaendal)
(Gwybodaeth Ofynnol) (Cymru)
2022**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

O dan baragraff 1 o Atodlen 5 (cynlluniau blaendal: darpariaeth bellach) i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (dccc 1) ("y Ddeddf"), rhaid i Weinidogion Cymru wneud trefniadau ar gyfer sicrhau bod un neu ragor o gynlluniau blaendal ar gael er mwyn diogelu blaendaliadau a delir mewn cysylltiad â chontractau meddiannaeth a hwyluso'r broses o ddatrys anghydfodau sy'n codi mewn cysylltiad â blaendaliadau o'r fath.

Mae adran 45(2) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol, pan fo landlord yn cael blaendal mewn cysylltiad â chontract meddiannaeth, i'r landlord, o fewn 30 o ddiwrnodau i'r dyddiad y ceir y blaendal, gydymffurfio ag unrhyw ofynion cychwynnol a osodir gan y cynllun blaendal awdurdodedig a rhoi'r wybodaeth ofynnol i ddeiliad y contract (neu'r person sydd wedi talu'r blaendal ar ran deiliad y contract). Mae adran 45(3) o'r Ddeddf yn darparu mai'r wybodaeth ofynnol yw unrhyw wybodaeth a gaiff ei rhagnodi sy'n ymwneud â'r cynllun blaendal awdurdodedig perthnasol, cydymffurfedd y landlord â gofynion cychwynnol y cynllun hwnnw a gweithrediad Pennod 4 o'r Ddeddf sy'n ymdrin â blaendaliadau a chynlluniau blaendal. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r wybodaeth honno.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Dai, Llywodraeth Cymru, Parc Busnes Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2022 Rhif 250 (Cy. 76)

TAI, CYMRU

**Rheoliadau Rhentu Cartrefi
(Cynlluniau Blaendal)
(Gwybodaeth Ofynnol) (Cymru)
2022**

Gwnaed 8 Mawrth 2022

Gosodwyd gerbron *Senedd*
Cymru 10 Mawrth 2022

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45(3)(1) a 256(1) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016(2).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Cynlluniau Blaendal) (Gwybodaeth Ofynnol) (Cymru) 2022 a deuant i rym ar y diwrnod y mae adran 239 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016(3) yn dod i rym.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr “y Ddeddf” yw Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

(2) Mae i eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn yr un ystyr ag sydd iddynt yn y Ddeddf.

-
- (1) Mae adran 45(3) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (decc 1) yn galluogi rhagnodi gwybodaeth ofynnol benodol sydd i'w darparu gan y landlord mewn perthynas â chynllun blaendal awdurdodedig. Mae adran 252 o'r Ddeddf honno yn diffinio mai ystyr “rhagnodedig” yw wedi ei rhagnodi drwy reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru.
- (2) 2016 decc 1.
- (3) Bydd adran 239 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn dod i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol.

Gwybodaeth ofynnol sy'n ymwneud â blaendaliadau

3.—(1) Mae'r wybodaeth a ganlyn yn wybodaeth ofynnol at ddibenion adran 45(3) o'r Ddeddf—

- (a) enw, cyfeiriad, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost gweinyddwr cynllun(1) y cynllun blaendal(2) sy'n gymwys i'r blaendal,
- (b) unrhyw wybodaeth a gyflenwir gan weinyddwr y cynllun i'r landlord sy'n egluro'r modd y gweithredir adrannau 45 i 47(3) o'r Ddeddf ac Atodlen 5 iddi,
- (c) y gweithdrefnau sy'n gymwys o dan y cynllun blaendal lle y caniateir i swm mewn cysylltiad â blaendal gael ei dalu neu ei ad-dalu i ddeiliad y contract ar ddiwedd y contract meddiannaeth,
- (d) y gweithdrefnau sy'n gymwys o dan y cynllun blaendal pan na fo'n bosibl cysylltu â naill ai'r landlord neu ddeiliad y contract ar ddiwedd y contract meddiannaeth,
- (e) y gweithdrefnau sy'n gymwys o dan y cynllun blaendal pan fo anghydfod rhwng y landlord a deiliad y contract ynghylch y swm sydd i'w dalu neu i'w ad-dalu i ddeiliad y contract mewn cysylltiad â'r blaendal,
- (f) y cyfleusterau sydd ar gael o dan y cynllun blaendal er mwyn galluogi datrys anghydfod sy'n ymwneud â'r blaendal heb droi at ymgyfreitha, ac
- (g) yr wybodaeth a ganlyn mewn cysylltiad â'r contract meddiannaeth y mae'r blaendal wedi ei dalu mewn cysylltiad ag ef—
 - (i) swm y blaendal a dalwyd,
 - (ii) cyfeiriad yr annedd y mae'r contract meddiannaeth yn ymwneud â hi,
 - (iii) enw, cyfeiriad a rhif ffôn y landlord, ac unrhyw gyfeiriad e-bost sydd ganddo,
 - (iv) enw, cyfeiriad a rhif ffôn deiliad y contract, ac unrhyw gyfeiriad e-bost sydd ganddo, gan gynnwys unrhyw fanylion y dylai'r landlord neu weinyddwr y cynllun eu defnyddio at ddiben cysylltu â deiliad y contract ar ddiwedd y contract meddiannaeth,
 - (v) enw, cyfeiriad a rhif ffôn unrhyw berson a dalodd y blaendal ar ran deiliad y

(1) Gweler paragraff 1(3) o Atodlen 5 i'r Ddeddf.
 (2) Gweler paragraff 1(2) o Atodlen 5 i'r Ddeddf.
 (3) Diwygiwyd adran 46 o'r Ddeddf gan adran 18 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 (dsc 3) a pharagraff 7 o Atodlen 6 iddi.

contract, yn unol â threfniadau a wnaed gyda deiliad y contract, ac unrhyw gyfeiriad e-bost sydd ganddo,

- (vi) yr amgylchiadau pan ganiateir i'r landlord gadw'r blaendal cyfan, neu ran ohono, gan gyfeirio at delerau'r contract meddiannaeth, a
- (vii) cadarnhad (ar ffurf tystysgrif wedi ei llofnodi gan y landlord)—
 - (aa) bod yr wybodaeth a ddarperir o dan is-baragraff (g) yn gywir hyd eithaf gwybodaeth a chred y landlord, a
 - (bb) bod y landlord wedi rhoi'r cyfle i ddeiliad y contract lofnodi unrhyw ddogfen sy'n cynnwys yr wybodaeth a ddarparwyd gan y landlord o dan baragraff (1).

(2) At ddibenion paragraff (1)(d), mae'r cyfeiriad at landlord neu ddeiliad contract nad yw'n bosibl cysylltu ag ef yn cynnwys landlord neu ddeiliad contract y gwyddys lle y mae, ond nad yw wedi ymateb, o fewn cyfnod rhesymol o amser, i gyfathrebiadau mewn cysylltiad â'r blaendal.

Dirymu

4. Mae Gorchymyn Tai (Blaendaliadau Tenantiaeth) (Gwybodaeth Ragnodedig) 2007(1) wedi ei ddirymu o ran Cymru.

Julie James
Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion
Cymru
8 Mawrth 2022

(1) O.S. 2007/797.